



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gwasanaethau Maethu

Gweithredu fframwaith rheoleiddiol newydd

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mai 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Awst 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar set newydd o reoliadau maethu fydd yn disodli Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol o dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gofynion ar asiantaethau maethu annibynnol o dan Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol 2016, a rheoliadau ynghylch cymeradwyo rhieni maeth. Mae hefyd yn gofyn am safbwyntiau ar ganllawiau statudol drafft a chod ymarfer fydd yn ategu'r rheoliadau. Daw'r rheoliadau maethu newydd i rym yn Ebrill 2019.

Hefyd, mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar opsiynau mewn perthynas ag adolygiadau annibynnol o benderfyniadau ynghylch maethu yn y dyfodol.

Sut i ymateb Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i ymgynghoriad sydd ar ddiwedd y ddogfen hon erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylid anfon yr ymateb at:

Cangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu mae'r ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>) a gellir ei dychwelyd atom erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost i: RISCAct2016@gov.wales

Mwy o wybodaeth a **Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd gwahanol o'r ddogfen hon ar gael.**

dogfennau cysylltiedig Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017 - mae'r rhain yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a chymorth cartref

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf

Canllawiau Statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ynghylch bodloni rheoliadau safonau gwasanaethau (Chwefror 2018) - mae'r rhain yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a chymorth cartref

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/180201statutory-guidancecy.pdf>

Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl sydd Angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd Angen Cymorth:

www.wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?lang=cy

Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad
Cyfnod 2 Gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal
Cymdeithasol (Cymru) 2016
<https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/171122responses-servicecy.pdf>

Manylion cysylltu

I gael mwy o wybodaeth:

Cyfeiriad: Cangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac
Integreiddio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: RISCAct2016@gov.wales

ffôn: 0300 0604400

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Gall comisiynu lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gwaith hwn gael ei wneud gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich

data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwyna thair blynedd

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- (o dan rai amgylchiadau) cludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD, CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane, Wilmslow

Cheshire, SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or

0303 123 1113

Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhagair

Yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn *Gwasanaethau Cyhoeddus Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*. Mae hwn yn esbonio cynllun uchelgeisiol i greu dull integredig a newydd o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Er mwyn cyflawni'r dull newydd yma, yn ystod tymor diweddaraf y Cynulliad bu i ni gyflwyno dau ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Drwy weithredu Deddf 2016 rydym yn sefydlu system newydd o reoleiddio ac archwilio darparwyr gwasanaethau sy'n gwarchod hawliau dinasyddion Cymru i dderbyn gofal a chymorth urddasol, diogel a phriodol.

Bydd y system reoleiddio newydd yn fwy cydnerth ac yn galluogi Arolygiaeth Gofal Cymru, fel rheoleiddiwr y gwasanaeth, i gael trosolwg o'r gwasanaeth llawn y mae sefydliad yn ei ddarparu. Hefyd, bydd yn ei gwneud yn haws i ddarparwyr gwasanaethau gofrestru gyda'r arolygiaeth ac i ddinasyddion gael mynediad at wybodaeth amdanynt.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau Maethu ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 drafft, canllawiau statudol ategol (ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol) a'r cod ymarfer (mewn perthynas â gwasanaethau maethu awdurdodau lleol) yn nodi ac yn egluro'r safonau gwasanaeth fydd yn ddisgwyliedig gan y darparwyr hyn o Ebrill 2019. Maent yn seiliedig ar, a phryd bynnag mae'n briodol, yn cyfateb i'r safonau hynny a osodwyd ar wasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref o fis Ebrill eleni.

Sicrhau cysondeb o ran y gofynion a osodir ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â'r holl wasanaethau a reoleiddir yw un o fy mhrif amcanion polisi wrth roi Deddf 2016 ar waith. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod bod gan bob gwasanaeth ei nodweddion ei hun. Felly, pan fo'n briodol, mae'r gofynion wedi'u teilwra er mwyn sicrhau eu bod yn cydweddu orau â sut mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu yn ymarferol, heb gyfaddawdu ar y safonau cyffredinol disgwyliedig.

Rwyf hefyd yn cynnig newidiadau mewn perthynas â phanelau maethu a'r ffordd y mae rhieni maeth arfaethedig yn cael eu hasesu. Rwyf yn credu bod y newidiadau hyn yn adlewyrchu ymarfer da sy'n bodoli ymysg asiantaethau maethu, ond buaswn yn croesawu eich safbwyntiau a'ch sylwadau. Yn olaf, rwyf yn profi ein cynigion ar gyfer dyfodol y mecanwaith adolygu annibynnol, er mwyn sicrhau bod y fframwaith ar gyfer adolygu penderfyniadau asiantaethau maethu yn parhau i gyflawni canlyniadau da a gwerth am arian.

Hoffwn ddiolch i chi am roi eich amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori hon, am ystyried y Rheoliadau drafft a'r canllawiau/cod, ac rwyf yn eich gwahodd i ymateb fel sy'n briodol. Edrychaf ymlaen at glywed eich safbwyntiau.

Huw Irranca-Davies AC

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

1. Cyflwyniad

- 1.1. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf crëwyd fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru drwy basio dau ddarn o ddeddfwriaeth oedd yn gerrig milltir. Y nod cyffredinol fu diwygio a chyfuno cyfraith gofal cymdeithasol, er mwyn gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr.
- 1.2. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014¹ ('Deddf 2014'), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014, yn creu fframwaith newydd sydd yn cyfuno ac yn moderneiddio'r gyfraith ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Rhan 6 y Ddeddf yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya, yn cynnwys rhai gaiff eu rhoi mewn gofal maeth. Daeth Rheoliadau² a chod ymarfer ar gyfer ymarfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 i rym ar 6 Ebrill 2016. Cafodd hynny ei ddiwygio'n rhannol, a daeth fersiwn 2 o'r cod³ i rym ar 2 Ebrill 2018.
- 1.3. Mae Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016⁴ ('Deddf 2016'), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016, yn nodi'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac archwilio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac mae hefyd yn diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n disodli systemau perthnasol a sefydlwyd yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000⁵.
- 1.4. Mae Deddf 2016 yn cael ei rhoi ar waith fesul tri chyfnod sy'n gorgyffwrdd:
 - **Cyfnod 1 (2016/17)** oedd yn cynnwys rheoliadau mewn perthynas â'r system newydd o reoleiddio gweithlu oedd yn ofynnol o dan y Ddeddf. Daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill 2017. Yn ogystal â'r rhain, bu i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatblygu rheolau a gweithdrefnau sy'n rheoli'r broses o gofrestru a rheoleiddio gweithlu.
 - **Cyfnod 2 (2017/18)** pryd y sefydlwyd systemau newydd ar gyfer cofrestru gwasanaethau rheoleiddiedig ac a weithredwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Ebrill 2018. Roedd y cyfnod hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â chartrefi gofal (yn cynnwys cartrefi plant), llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Daeth y rhain i rym ar 2 Ebrill 2018.

Mae dolenni ar gael i holl reoliadau a chanllawiau cyfnod 1 a chyfnod 2 drwy Hyb Gwybodaeth a Dysgu Arolygiaeth Gofal Cymru:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-rhaqc-rheoliadau>

¹ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

² Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1818/pdfs/wsi_20151818_mi.pdf
Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru)2015
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1820/pdfs/wsi_20151820_mi.pdf

Rheoliadau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad (Cymru) 2015
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1823/pdfs/wsi_20151823_mi.pdf

³ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/180328pt6cy.pdf>

⁴ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_we.pdf

⁵ http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf

- **Cyfnod 3 (2018/19)** yw'r cyfnod presennol ac mae'n cynnwys datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas ag asiantaethau mabwysiadu, asiantaethau maethu annibynnol, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli. Bwriedir i'r rhain ddod i rym yn Ebrill 2019.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o weithredu Cyfnod 3.

- 1.5. Mae diwygio cyfraith gofal cymdeithasol yn cael ei ategu gan fentrau polisi ehangach, yn cynnwys rhaglen 'Gwella Deilliannau i Blant' Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen hon yn cael ei goruchwyllo gan Grŵp Cynghori Gweinidogol o randdeiliaid allweddol o lywodraeth leol, academia a'r trydydd sector, ac mae'n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer plant sydd ar gyrion gofal, plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal. Mae wedi cynnwys datblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar gyfer Cymru, sydd yn cael ei roi ar waith dros dair blynedd o 2017/18.
- 1.6 Yn ystod cyfnod 3 byddwn hefyd yn datblygu'r gofynion fydd yn cael eu gosod ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau maethu. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar yr elfennau hyn, ac yn bwriadu i unrhyw reoliadau, canllawiau statudol a chodau ymarfer ddod i rym yn ystod gwanwyn 2019. Ar hyn o bryd rydym hefyd yn gofyn am safbwyntiau ar y dull o reoleiddio cynlluniau gwyliau i blant anabl, sydd ar hyn o bryd yn cael eu rheoleiddio fel gwasanaethau cartrefi gofal. Y bwriad yw diffinio'r gweithgaredd yma fel gwasanaeth newydd a reoleiddir o dan adran 2 Deddf 2016 a datblygu rheoliadau fydd yn gosod gofynion cymesur ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau o'r fath.

2. Yr ymgynghoriad hwn

- 2.1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal o 24 Mai 2018 a daw i ben am hanner nos ar 16 Awst 2018.

Gwasanaethau maethu: rheoliadau, canllawiau a chod ymarfer drafft

- 2.2. Mae'r elfen gyntaf yn gofyn am eich safbwyntiau ar Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019 ('y Rheoliadau drafft') sydd yn gwyno:

- yn rhoi gofynion newydd ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol (IFA) ac unigolion cyfrifol, o dan adrannau 27 a 28 Deddf 2016
- yn rhoi gofynion cyffelyb, pan fo hynny'n gymwys, ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol, o dan adran 94A Deddf 2014
- yn disodli Rhan IV Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003⁶ ('Rheoliadau 2003'), mewn perthynas â chymeradwyo gofalwyr maeth gan wasanaethau maethu annibynnol a gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol
- yn diddymu'r darpariaethau eraill yn Rhannau V a VI Rheoliadau 2003, mewn perthynas â lleoli gan sefydliadau gwirfoddol.

- 2.3. Mae hefyd yn gofyn am eich safbwyntiau ynghylch:

- canllawiau statudol drafft ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ac unigolion cyfrifol o ran bodloni safonau gwasanaeth, o dan adran 29 Deddf 2016
- cod ymarfer drafft ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, o dan adran 145 Deddf 2014.

Noder bod y canllawiau statudol drafft a'r cod ymarfer wedi eu cyfuno yn yr un ddogfen, oherwydd bod nifer o'r gofynion yn gymwys i'r ddau fath o wasanaeth maethu.

- 2.4. Bydd eich ymateb i'r ymgynghoriad yn helpu i hysbysu'r ystyriaeth a roddwn i'r Rheoliadau terfynol, canllawiau statudol a'r cod ymarfer. Ein bwriad yw dadansoddi'r ymatebion yn ystod yr hydref ac ystyried a fydd angen gwneud unrhyw newidiadau cyn cwblhau'r Rheoliadau erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym hefyd yn amcanu at gyhoeddi'r canllawiau statudol a'r cod ymarfer tua'r un adeg. Bydd y cyfan yn dod i rym yn Ebrill 2019.

Dyfodol y mecanwaith adolygu annibynnol

- 2.5. Mae ail elfen yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar ddyfodol adolygiadau annibynnol o 'ddyfarniadau cymhwyster' mewn perthynas â maethu, ac ar y Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) a sefydlwyd yn 2010 er mwyn rheoli'r adolygiadau hyn. Mae dyfarniadau cymhwys yn cael eu gwneud gan asiantaethau maethu neu fabwysiadu, pan fo'r asiantaeth yn argymhell peidio â chymeradwyo unigolyn fel gofalwr maeth neu fabwysiadwr, neu'n argymhell terfynu neu newid telerau cymeradwyo unigolyn.

⁶ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2003/237/pdfs/wsi_20030237_mi.pdf

- 2.6. Fe ofynnir i chi'n benodol am eich safbwynt ynghylch a yw'r gofynion presennol ar gyfer adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau mewn perthynas â maethu yn angenrheidiol a chymesur, ac i archwilio dulliau eraill posibl. Byddwn yn gofyn am safbwyntiau ar adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau mewn perthynas â mabwysiadu fel rhan o'n hymgyngoriad ar wasanaethau mabwysiadu yn ddiweddarach yn ystod yr haf, a byddwn yn ystyried yr ymatebion mewn perthynas â maethu a mabwysiadu gyda'i gilydd wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen.

3. Gwasanaethau maethu

Cefndir

- 3.1. Y rheoliadau presennol ar gyfer gwasanaethau maethu yng Nghymru yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003⁷ ('Rheoliadau 2003'), fel y'u diwygiwyd. Lluniwyd y rhain o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989⁸, ac mae'n rhoi gofynion ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol ac asiantaethau maethu annibynnol mewn perthynas â rheoli ac ymddygiad gwasanaethau maethu a chymeradwyo rhieni maeth (yn cynnwys panelau maethu, asesiadau, cymeradwyaethau, adolygiadau a therfyniadau). Maent hefyd yn cynnwys rheoliadau ynghylch lleoli plant gan sefydliadau gwirfoddol.
- 3.2. Cafodd Rhan V Rheoliadau 2003, sy'n gysylltiedig â lleoli plant mewn lleoliadau maethu gan awdurdodau lleol, eu disodli gan Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015⁹, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016.

Yr achos o blaid newid

- 3.3. Mae llawer wedi ei gyflawni gan y rheoleiddwyr (Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru¹⁰), a'r sector gofal cymdeithasol ehangach, wrth fynd ati i wireddu'r uchelgeisiau a nodwyd yn Neddf Safonau Gofal 2000. Roedd y fframwaith hwn yn darparu gwaelodlin o safonau, ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ac i'r gweithlu sy'n eu darparu, ac mae'n ddiarnheul wedi gwella gwarchodaeth i'r cyhoedd. Hefyd, mae wedi darparu llawer mwy o gysondeb, gwarchodaeth rhag camdriniaeth a chamfanteisio, a mwy o sylw i arferion nad ydynt yn cyrraedd y safon. Gyda'n gilydd rydym wedi llwyddo i wella perfformiad ac yn parhau i ddefnyddio rheoleiddio ac archwilio i ganfod a dileu safonau gwael.
- 3.4. Fodd bynnag, ers hynny, rydym yn cydnabod bod llawer o bethau wedi newid yn y sector ac o gwmpas y sector, ac rydym wedi cydnabod yr angen i sicrhau bod ein trefniadau rheoleiddio yn gyfredol, a'r angen i gefnogi darparu gwasanaethau cynaliadwy.
- 3.5. Mae diwygio'r system reoleiddio, a ysgogir yn bennaf drwy Ddeddf 2016, yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol:
 - ymatebolrwydd i'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2014
 - sicrhau bod dinasyddion wrth galon gofal a chymorth
 - datblygu dull Cymreig cydlynol a chyson
 - taclo methiannau darparwyr
 - ymatebolrwydd i fodelau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon newydd am ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.
- 3.6. Mae gan y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ran arwyddocaol i'w chwarae o ran gweithredu a bwrw ymlaen â'r diwygiadau yma.

⁷ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2003/237/pdfs/wsi_20030237_mi.pdf

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents>

⁹ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1818/pdfs/wsi_20151818_mi.pdf

¹⁰ Arolygiaeth Gofal Cymru (hyd at Ionawr 2018) oedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Gofal Cymdeithasol Cymru (hyd at Ebrill 2016) oedd Cyngor Gofal Cymru.

Y fframwaith rheoleiddiol newydd

- 3.7. O dan adran 27 Deddf 2016, gall Gweinidogion Cymru, drwy ddefnyddio rheoliadau, osod gofynion ar ddarparwr gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaeth a reoleiddir. O dan adran 28, gallent osod gofynion ar unigolyn cyfrifol mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig.
- 3.8. Mae'r 'gwasanaethau rheoleiddiedig' yma yn cynnwys gwasanaethau maethu, a ddiffinnir yn Atodlen 1 Deddf 2016 fel: '*... unrhyw wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan berson ac eithrio awdurdod lleol sy'n gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu sy'n cynnwys y naill neu'r llall o'r canlynol - lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdod lleol; arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â'r lleoliad hwnnw.*'
- 3.9. Bydd Deddf 2016 yn disodli Deddf Safonau Gofal 2000 mewn perthynas â'r gofynion ar asiantaethau maethu annibynnol ('IFA'), sy'n cynnwys darparwyr y sectorau preifat a gwirfoddol, ac oherwydd hynny mae angen rheoliadau newydd.
- 3.10. Er nad yw gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn wasanaeth a reoleiddir o dan Ddeddf 2016, mae'n bwysig eu bod yn destun monitro a rheoli priodol, ac yn ddarostyngedig i'r safonau sy'n gymwys i ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol pan fo'n briodol. O dan adran 94A Deddf 2014 (a gynhwyswyd gan adran 58 Deddf 2016), gall Gweinidogion Cymru lunio rheoliadau mewn perthynas â rheoleiddio swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Rydym yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn er mwyn llunio rheoliadau sy'n gosod gofynion ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol, mewn set cyfun o reoliadau maethu.
- 3.11. Mae'r ymagwedd a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft wedi ei dewis er mwyn sicrhau bod y gofynion yn:
- **Gymesur:** dylai'r gofynion fod yn berthnasol i faterion a reolir gan ddarparwr y gwasanaeth maethu a'r unigolyn cyfrifol (yn achos IFA), ac arwain at welliannau o ran ansawdd ac arferion.
 - **Rhesymol gyson** ar draws yr holl wasanaethau a reoleiddir: nid yw hynny'n golygu safonau 'unffurf' i bawb, ond y dylai'r un safonau uchel gael eu cymhwyso ar draws yr holl wasanaethau. Felly, mae'r rheoliadau'n rhai lefel uchel o anghenraid, ac mae'r manylion ynghylch sut mae cydymffurfio â'r gofynion wedi eu nodi yn y canllawiau statudol drafft a'r cod ymarfer. Cyn belled â phosibl bydd gofynion cyfatebol yn cael eu cymhwyso i wasanaethau maethu awdurdodau lleol, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2016.
 - **Canolbwyntio ar ddeilliannau i bobl:** y bwriad yw i'r gofynion alluogi i wasanaethau gefnogi pobl yn y ffordd orau bosibl i gyflawni *beth sy'n bwysig iddyn nhw*, yn unol ag ethos Deddf 2014. Y nod yw rhoi digon o hyblygrwydd i ddarparwyr er mwyn eu galluogi i ofalu am bobl a'u cefnogi mewn modd sy'n gosod yr unigolyn fel canolbwynt eu gofal.
- 3.12. O dan adran 29 Deddf 2016, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch sut y gall darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig gydymffurfio â gofynion a osodir gan reoliadau o dan adran 27, yn cynnwys sut all darparwyr fodloni unrhyw safonau darparu gwasanaeth a reoleiddir a nodir yn y cyfryw reoliadau; a sut y gall unigolion cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion o dan adran 28. Bydd y canllawiau

statudol yma yn gymwys i IFAau yn unig. Bydd raid i ganllawiau ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol gael eu cyhoeddi fel cod ymarfer o dan adran 145 Deddf 2014. Pryd bynnag fo'n bosibl, ein bwriad yw i'r canllawiau statudol a'r cod ymarfer ategu ac alinio â'i gilydd fel atodiad i'r Rheoliadau drafft. Bydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu¹¹, a gyhoeddwyd yn 2003, yn cael eu disodli gan gyfuniad o ofyniadau yn y Rheoliadau drafft, wedi eu hategu gan y canllawiau statudol a'r cod ymarfer drafft fel sy'n briodol.

Ein cynigion

- 3.13. Daw ein cynigion ar gyfer rheoliadau newydd i ddisodli Rheoliadau 2003, o dan dri prif bennawd: gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau (IFA a gwasanaethau maethu awdurdodau lleol) mewn perthynas â gweithredu gwasanaethau maethu, gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau (IFA a gwasanaethau maethu awdurdodau lleol) mewn perthynas â sefydlu panelau maethu, asesu a chymeradwyo rhieni maeth, ac adolygiadau a therfyniadau; a diddymu'r darpariaethau mewn perthynas â lleoli gan sefydliadau gwirfoddol.

Gweithredu gwasanaethau maethu

- 3.14. I'r graddau sy'n ymarferol, bwriad ein polisi yn gyffredinol yw gosod set o ofynion generig ar ddarparwyr yr holl 'wasanaethau rheoleiddiedig' o dan Deddf 2016, gan addasu'r rhain pan fo angen er mwyn gweddu i bob gwasanaeth. Nodwyd y gofynion generig yma i ddechrau yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017¹² ('Rheoliadau 2017'), a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2018 ac sy'n gymwys i wasanaethau cartrefi gofal (yn cynnwys cartrefi plant), llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Felly mae Rheoliadau 2017 yn darparu glasbrint polisi ar gyfer y Rheoliadau drafft yr ymgynghorir arnynt yma. Fodd bynnag, fe fydd yna rai gwahaniaethau arwyddocaol, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y gofal a'r cymorth a roddir i blentyn mewn lleoliad gofal maeth yn cael ei ddarparu gan rieni maeth sy'n ymarfer o un diwrnod i'r llall, yn eu cartrefi eu hunain, yn hytrach na gan staff y darparwr gwasanaeth ei hun ar ei safle ei hun.
- 3.15. Ar gyfer gwasanaethau maethu, bwriad ein polisi hefyd yw gosod yr un gofynion generig ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol ag a roddir ar IFAau, pan fo hynny'n ymarferol, gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf 2014. O reidrwydd, bydd yna rai gwahaniaethau arwyddocaol yma hefyd. Er enghraifft, bydd rôl rheolwr gwasanaethau maethu'r awdurdod lleol yn wahanol iawn - ac yn cael ei weithredu ar lefel wahanol - i'r unigolyn cyfrifol mewn IFA. Mae'r Rheoliadau drafft yr ymgynghorir arnynt yma wedi cael eu strwythuro fel ei bod yn glir pa ofynion sy'n gymwys i IFAau yn unig, pa rai sy'n gymwys i wasanaethau maethu awdurdodau lleol yn unig, a pha rai sy'n gymwys i'r ddau.

¹¹ <http://careinspectorate.wales/docs/cssiw/general/131009nmsfosteringcy.pdf>

¹² http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf

Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019

3.16. I grynhoi, mae'r Rheoliadau drafft:

- yn rhoi gofynion newydd ar ddarparwyr gwasanaethau maethu (IFA) ac unigolion cyfrifol, o dan adrannau 27 a 28 Deddf 2016
- yn rhoi gofynion cyffelyb, pan fo hynny'n gymwys, ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol, o dan adran 94A Deddf 2014
- yn nodi pa achosion o dorri'r gofynion ar IFAAu ac unigolion cyfrifol fydd yn cael eu trin fel troseddau (o dan adrannau 45 a 46 Deddf 2016)
- yn gosod gofynion ar berson penodedig mewn perthynas â darparwr gwasanaeth maethu annibynnol sydd wedi ei ddiddymu (o dan adran 30 Deddf 2016)
- yn gosod gofynion ar gynrychiolydd personol darparwr gwasanaeth maethu annibynnol sydd wedi marw (pan mai unigolyn yw'r darparwr gwasanaeth) (o dan adran 31 Deddf 2016).

3.17. Bydd y Rheoliadau drafft yn cael eu hategu gan ganllawiau statudol drafft ar gyfer IFAAu a chod ymarfer drafft ar gyfer awdurdodau lleol, ac mae'r ddau yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Cyn belled â phosibl, mae'r canllawiau statudol drafft a'r cod ymarfer drafft yn adlewyrchiad o'i gilydd, er bod iaith a naws y ddwy ddogfen yn eithaf gwahanol. Mae hynny'n wir er mwyn sicrhau cysondeb, ar y naill law, gyda chanllawiau eraill a gyhoeddwyd o dan adran 29 Deddf 2016, ac ar y llaw arall â'r codau ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 145 Deddf 2014 (yn arbennig y cod Rhan 6 ynghylch plant sy'n derbyn gofal a plant sy'n cael eu lletya).

3.18. Fel yn achos y Rheoliadau drafft, mae'r canllawiau statudol drafft a'r cod ymarfer yn gyffredinol yn dilyn fformat a chynnwys y canllawiau statudol¹³ a gyhoeddwyd yn Chwefror 2018, pan fo'n briodol, mewn perthynas â chartrefi gofal, llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref (a ddatblygwyd yn ystod cyfnod gweithredu 2).

3.19. **Mae nodyn eglurhaol y Rheoliadau drafft yn amlinellu cynnwys pob Rhan, yr ydym yn argymhell eich bod yn eu darllen, felly nid yw hynny yn cael ei ailadrodd yma.**

Troseddau

3.20. Mae'r rheoliadau yn y rhan hon yn cael eu llunio o dan bwerau adrannau 45 a 46 Deddf 2016. Mae Rheoliad 14(1) yn darparu bod methiant ar ran darparwr gwasanaethau maethu annibynnol i gydymffurfio â gofynion darpariaethau penodol yn y Rheoliadau drafft yn drosedd. Hefyd, pan fo darparwr gwasanaethau maethu annibynnol yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol eraill, mae rheoliad 14(2) yn darparu bod hynny yn drosedd os bydd y methiant i gydymffurfio yn arwain at blentyn yn dod i gysylltiad â niwed y gellid ei osgoi neu'n wynebu risg sylweddol o ddioddef niwed o'r fath neu'n colli arian neu eiddo o ganlyniad i ladrad, camddefnyddio neu gamberchnogi. Nid yw'r darpariaethau yma yn cael eu hefelychu ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol oherwydd nad ydynt yn wasanaethau a reoleiddir, ac mae yna gyfundrefn wedi ei sefydlu eisoes ar gyfer monitro ac archwilio adrannau gwasanaethau plant. Mae Rheoliad 78 yn nodi pa ofynion, os na fydd yr unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â hwy, fydd yn cael eu trin fel trosedd.

¹³ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/180201statutory-guidancecy.pdf>

3.21 Er na fyddai methu â chydymffurfio â gofyniad penodol yn y Rheoliadau drafft yn drosedd efallai, mae'n werth nodi y gallai methiant ar ran darparwr gwasanaethau maethu annibynnol i gydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion a osodir arnynt yn Rhannau 2, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 y Rheoliadau fod yn sail ar gyfer canslo eu cofrestrriad o dan adran 15 Deddf 2016. Gallai methiant ar ran unigolyn cyfrifol i gydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion yn Rhan 12 y Rheoliadau fod yn sail i ganslo dynodiad yr unigolyn cyfrifol o dan adran 22.

Hysbysiadau cosb

- 3.22 Er bod y Rheoliadau drafft yn nodi pa achosion o dorri gofynion gan ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol fydd i'w trin fel troseddau, nid ydynt yn gwneud darpariaethau ar gyfer cymhwyso hysbysiadau cosb. Yn ystod cyfnod 2, bu i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017¹⁴ sefydlu system hysbysiadau cosb, olygai y gallai Arolygiaeth Gofal Cymru roi cosb i ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig yn hytrach na dwyn achos mewn perthynas â throseddau penodol.
- 3.23 Bwriad ein polisi yw ymestyn hynny i wasanaethau cyfnod 3, a galluogi i'r un system hysbysiadau cosb fod yn gymwys i droseddau cyfatebol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ac unigolion cyfrifol. Mae hynny yn cael ei ddangos yn glir yn y tabl yn Atodiad A (dogfen ar wahân), a gofynnir am eich safbwyntiau ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn adran 6 y ddogfen hon.

Panelau maethu, asesu ac adolygiadau

- 3.24. Bydd y gofynion ar ddarparwyr mewn perthynas â sut mae gwasanaethau maethu yn cael eu gweithredu yn disodli'r rhan fwyaf o Reoliadau 2003, ac eithrio Rhannau IV a VI. Mae Rhan IV yn delio ag asesu a chymeradwyo rhieni maeth gan wasanaethau maethu awdurdodau lleol ac IFAau, a hefyd gydag adolygiadau a therfyniadau. Bwriad ein polisi yw trosglwyddo'r rheoliadau hyn i'r Rheoliadau drafft fel ein bod yn parhau i feddu ar un set gyfun o reoliadau ar gyfer gwasanaethau maethu.
- 3.25. Drwy wneud hynny, rydym wedi manteisio ar y cyfle i adolygu, gyda'r Grŵp Technegol Maethu, sut mae Rhan IV y rheoliadau yn gweithio'n ymarferol, ac ystyried unrhyw newidiadau allai fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol.
- 3.26. O ganlyniad i hynny, byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar y newidiadau canlynol sydd wedi eu hymgorffori yn y Rheoliadau drafft:
- Gofyniad i ddarparwyr gwasanaeth maethu gynnal 'rhestr ganolog' o unigolion y maent yn eu hystyried sy'n addas i fod yn aelodau o banel maethu. Dylai hynny ei gwneud yn haws i ddarparwyr recriwtio aelodau panel a sefydlu panelau pan fo angen hynny.
 - Darpariaeth i ddau neu ragor o ddarparwyr sefydlu panel maethu ar y cyd, ac iddynt gytuno gyda'i gilydd ar benodi aelodau. Bydd hynny yn arbennig o bwysig i awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu dulliau rhanbarthol o faethu o dan Fframwaith Maethu Cenedlaethol Cymru.

¹⁴ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1292/pdfs/wsi_20171292_mi.pdf

- Cyflwyno proses asesu dau gam ar gyfer gofalwyr maeth arfaethedig. Dyluniwyd hynny er mwyn adnabod ymgeiswyr amlwg o anaddas yn gynharach, cyn bwrw ymlaen ag asesu gweddill yr ymgeiswyr yn llawn. Mae'n adlewyrchu ymarfer cyfredol mewn nifer o asiantaethau maethu. Ni fydd gan yr ymgeiswyr hynny y gwrthodir eu ceisiadau yn ystod y cam cyntaf yr hawl i atgyfeirio'r penderfyniad hwnnw at banel adolygu annibynnol.

- 3.27. Mae newidiadau cyffelyb eisoes wedi cael eu gwneud yn Lloegr o dan Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Lloegr) 2011¹⁵.
- 3.28. Byddir yn nodi bod Rhan 14 y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i rieni maeth arfaethedig sy'n berthnasau gael eu hasesu a'u cymeradwyo yn yr un modd â rhieni maeth sy'n berthnasau ('prif lif'). Gellir dadlau y dylid trin aelodau teulu sy'n cytuno i gael eu hystyried fel rhieni maeth mewn modd sy'n fwy addas i'w statws fel aelodau teulu, ac mae nifer o ymarferwyr yn adrodd eu bod yn cael anhawster cymhwyso'r fframwaith rheoleiddiol presennol i'r math yma o drefniant. Yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Technegol, awgrymwyd nifer o ddulliau amgen, ac rydym wedi bod yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer newid. Ein bwriad yw ymgynghori ar yr opsiynau hynny yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.
- 3.29. Yn yr ymgynghoriad hwn nid ydym wedi cynnwys unrhyw ganllawiau ymarfer da ar Ran 14 y Rheoliadau drafft, ar banelau maethu, cymeradwyaethau, adolygiadau a dyfarniadau cymhwyso. Ein bwriad yw comisiynu canllawiau ymarfer ar hyn er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol gyda gweithredu elfennau newydd cynnal rhestr ganolog a chynnal asesiadau dau gam. Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar beth ddylai'r canllawiau yma ei gynnwys.

Lleoli gan sefydliadau gwirfoddol

- 3.30. Mae Rhan VI Rheoliadau 2003 yn gwneud darpariaethau ar gyfer lleoli plentyn mewn lleoliad maethu gan sefydliad gwirfoddol. Nid yw'n gwbl glir sut fath o leoliad a ragwelir gan Ran VI Rheoliadau 2003, neu o dan pa amgylchiadau y byddai'r darpariaethau yma yn cael eu defnyddio heddiw. Rydym yn credu bod hwn yn grair o'r cyfnod pan fyddai rhiant neu warchodwr efallai wedi lleoli plentyn yn uniongyrchol â gofalwr maeth a gymeradwywyd gan sefydliad gwirfoddol heb gynnwys gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, mewn trefniant preifat y tu allan i'r system plant sy'n derbyn gofal. Nid ydym yn credu bod lleoliadau o'r fath yn cael eu defnyddio, nac yn briodol heddiw, ac rydym yn cynnig diddymu Rhan VI. Ond cyn gwneud hynny byddem yn croesawu eich safbwyntiau.

¹⁵ http://www.legislation.gov.uk/uksi/2011/581/pdfs/uksi_20110581_en.pdf

4. Mekanwaith adolygu annibynnol

Cefndir

- 4.24. Cyflwynwyd adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau (IRD) ar gyfer mabwysiadu yn 2006 ar ôl gweithredu Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002¹⁶. Yn 2010 fe'i hystynnwyd i gynnwys maethu. Mae'r broses adolygu yn cael ei rheoli gan Reoliadau Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010¹⁷. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ar ôl derbyn cais am adolygiad, sefydlu panel, a nodi aelodaeth a swyddogaethau'r panel adolygu a'r amserlen fydd yn cael ei dilyn.
- 4.25. Sefydlwyd y Mekanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) yn 2010 er mwyn rheoli'r broses y gallai mabwysiadwyr arfaethedig neu gymeradwyedig, a gofalwyr maeth arfaethedig neu gymeradwyedig, ei defnyddio i geisio adolygiad o 'ddyfarniad cymhwyso' a wnaed naill ai gan eu darparwr gwasanaethau mabwysiadu neu faethu, boed hynny yn asiantaeth annibynnol neu'n awdurdod lleol. Mae dyfarniadau cymhwyso yn cael eu gwneud gan ddarparwyr gwasanaethau maethu, pan fo'r asiantaeth yn argymhell peidio â chymeradwyo unigolyn fel gofalwr maeth, neu'n argymhell terfynu neu newid telerau cymeradwyo unigolyn.
- 4.26. Mae gan yr IRM dair swyddogaeth mewn perthynas â maethu:
- Adolygu argymhelliad o dan Reoliadau 2003 i beidio â chymeradwyo ymgeisydd fel rhywun sy'n addas i fod yn rhiant maeth.
 - Adolygu argymhelliad o dan Reoliadau 2003 i adolygu telerau cymeradwyo rhiant maeth presennol.
 - Adolygu argymhelliad o dan Reoliadau 2003 nad yw'r rhiant maeth mwyach yn addas i fod yn rhiant maeth.
- 4.27. Mae'r broses adolygu yn cael ei chynnal gan banel adolygu sy'n gwbl annibynnol ar y darparwr gwasanaethau maethu dan sylw. Swyddogaeth y panel adolygu annibynnol yw ystyried pob achos o'r newydd a rhoi argymhelliad i'r darparwr gwasanaethau maethu. Nid proses apelio yw hon, ac ni all panel adolygu wrthdroi dyfarniad cymhwyso'r asiantaeth faethu. Y darparwr gwasanaethau maethu fydd yn dal i wneud y penderfyniad terfynol.
- 4.28. O 1 Ebrill 2010, bu i Lywodraeth Cymru allgontractio IRM er mwyn cynnal annibyniaeth gweithredol. Ar hyn o bryd mae'r IRM yn cael ei reoli gan Blant yng Nghymru, o dan gontract i Lywodraeth Cymru. Gellir canfod mwy o fanylion am yr IRM yn <http://irm.cymru/cy/>. Mae'r wefan hon wedi cae ei hysgrifennu ar gyfer ymgeiswyr ac asiantaethau, ac mae'n egluro'r gwahanol fathau o ddyfarniadau cymhwyso, y broses ymgeisio a beth mae panelau IRM yn ei wneud. Mae hefyd yn cynnwys adroddiadau blynyddol IRM.

Yr achos o blaid newid

- 4.29. Bu i Lywodraeth Cymru gynnal dau weithdy gyda rhanddeiliaid allweddol ym Mehefin 2016, yn Ne a Gogledd Cymru, er mwyn trafod dyfodol yr IRD ac unrhyw newidiadau allai fod angen eu gwneud i'r rheoliadau a'r canllawiau. Mae Llywodraeth Cymru yn

¹⁶ http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/38/pdfs/ukpga_20020038_en.pdf

¹⁷ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/746/pdfs/wsi_20100746_mi.pdf

ddiolchgar i'r rhai a gymerodd ran yn y trafodaethau cychwynnol hynny, sydd wedi eu helpu i hysbysu'r ymgynghoriad hwn.

4.30. Cyflwynwyd IRDau am y rhesymau canlynol:

- Er mwyn gwella hyder y cyhoedd yn nhryloywder y broses gymeradwyo ar gyfer rhieni maeth arfaethedig,
- Er mwyn cyflwyno elfen annibynnol i'r broses adolygu, ac
- Er mwyn annog mwy o bobl i ystyried maethu ac ymgeisio i fod yn rhieni maeth.

4.31. Mae'r IRM yn hyrwyddo hawliau plant drwy ddarparu rhieni maeth addas i blant. Mae maethu yn darparu lleoliadau sefydlog i blant a phobl ifanc fyddai fel arall yn wynebu risg o gael ei heithrio, tloedi a llai o gyfleoedd mewn bywyd. Polisi Llywodraeth Cymru yw annog pobl o amrywiol gefndiroedd i ystyried maethu neu fabwysiadu, a hefyd annog mwy o leoliadau Cymraeg. Drwy ddarparu mecanwaith adolygu annibynnol pan newidir neu derfynir telerau cymeradwyo gofalwr arfaethedig (neu y gwrthodir cais yr unigolyn), mae'r IRM yn helpu i sicrhau nad oes neb yn cael eu heithrio heb roi ystyriaeth ac adolygiad dyledus iddynt.

4.32. Ers 2010 mae'r IRM wedi cael ei allgontractio ac mae'n destun proses dendro gystadleuol sydd wedi cynnwys ystyriaeth ofalus i'r gost gyffredinol a gwerth am arian cynnal y gwasanaeth yn unol â'r rheoliadau. Rydym yn ymwybodol, o'r adborth gan ymgeiswyr, aelodau panel ac asiantaethau maethu, bod yr IRM yn cael ei werthfawrogi am ei annibyniaeth a'i rôl o ran darparu sicrwydd ansawdd mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir gan banelau mabwysiadu a maethu. Mae ymgeiswyr yn gwerthfawrogi tryloywder y broses adolygu yn benodol a'r teimlad y gwrandawyd yn briodol arnyn nhw a'u pryderon. Mae canfyddiadau ac argymhellion panelau IRM hefyd yn cyfrannu at yr hyn a ddysgir ac ymarfer dda ar gyfer asiantaethau ac ymarferwyr maethu a mabwysiadu.

4.33. Fodd bynnag, mae'r adborth a dderbyniwyd yn awgrymu bod yr IRM yn wasanaeth costus i'w gynnal o ystyried y nifer cyfyngedig o geisiadau a dderbynnir a'r adolygiadau a gynhelir bob blwyddyn. Oherwydd bod yr IRM yn cael ei arwain gan alw, mae gwir nifer y ceisiadau a'r adolygiadau yn amrywio o un flwyddyn i'r llall. O 2010-11 i 2014-15, bu i wyth cais y flwyddyn symud ymlaen i gael eu hadolygu. Yn 2015-16 gostyngodd hynny i bump, ac yn 2016-17 bu chwe adolygiad. Yn 2017-18, derbyniwyd deg cais ac aeth chwech ymlaen i gael eu hadolygu (a seithfed yn disgwyl adolygiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol). Mae costau'r IRM yn rhannu'n ddau ran: elfen benodol i gynnal y cynllun, a chost am bob adolygiad. Gan ystyried chwe adolygiad yn 2017-18 roedd cyfanswm cost y gwasanaeth yn tua £58,000.

4.34. Y prif gonsyrn ymysg darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ac awdurdodau lleol oedd gwerth am arian, ac a oedd achosion yn cael eu cyflwyno ar gyfer adolygiad yn ddiangen - h.y. bod hyn yn ffordd gostus o ddelio â materion y gellid ymdrin â nhw yn gynharach yn ystod yr asesiad / proses benderfynu. Mae'n ddisgwyliedig i ddarparwyr gwasanaeth maethu annibynnol ac awdurdodau lleol gyfrannu tuag at gyfran o'r costau adolygu - sydd ar hyn o bryd yn £3,403 am bob adolygiad.

4.35. Mae amrywiol resymau wedi cael eu cynnig am ostyngiad yn niferoedd y ceisiadau am adolygiadau. Gallai fod yn gysylltiedig ag asesu mwy cydnerth a gwell penderfyniadau. Efallai bod gweithdrefnau cwyno, sydd ag elfen fewnol o annibyniaeth, wedi cynnig ffordd arall i ymgeiswyr arfaethedig fynegi eu pryderon. Nid yw'r IRM yn rhagwahardd pobl rhag defnyddio gweithdrefnau cwyno awdurdodau lleol

neu asiantaethau annibynnol, ac mae adborth gan banelau IRM yn awgrymu mai eu prif werth yw bod ymgeiswyr yn teimlo y gwrandewir arnyn nhw a'u pryderon.

Ein cynigion

- 4.36. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am safbwyntiau ar ddyfodol adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau yn y dyfodol a'r IRM. Mae'r Rheoliadau drafft yn efelychu darpariaethau presennol Rheoliadau 2003 mewn perthynas ag adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau (yn Rhan 4). Fodd bynnag, byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar p'un a oes angen cadw system o adolygu annibynnol yn yr hirdymor, neu a oes yna fecanweithiau amgen ellid eu defnyddio er mwyn sicrhau bod rhieni maeth / rhieni maeth arfaethedig sy'n anghytuno â phenderfyniad am delerau eu cymeradwyaeth yn gallu mynegi eu safbwyntiau.
- 4.37. Cynigwyd amrywiol awgrymiadau yn ystod y gweithdy cychwynnol. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Cadw'r system bresennol o banelau adolygu annibynnol, ar y sail ei bod yn gweithio'n dda ac yn cynnig ffordd i ymgeiswyr sicrhau y gwrandawyd ar eu safbwyntiau a'u pryderon mewn ffordd briodol. Yn ôl y safbwynt yma mae bodlonrwydd y defnyddiwr ac annibyniaeth y broses adolygu yn bwysicach na'r gost.
 - Buddsoddi mewn gwella'r ffordd y mae darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ac awdurdodau leol yn delio â cheisiadau gan rieni maeth arfaethedig, a sut maent yn gwneud ac yn cyfathrebu penderfyniadau i rieni maeth / rhieni maeth arfaethedig. Gallai canllawiau ymarfer ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu ar Ran 14 y Rheoliadau drafft helpu tuag at hynny. O dan y senario yma, gallai nifer yr adolygiadau annibynnol barhau i ostwng gydag amser a byddai'r angen am yr IRM yn diflannu.
 - Disodli'r system panel cyfredol gydag ymagwedd ysgafnach, fyddai efallai ond yn cynnwys un adolygydd annibynnol. O dan y senario yma, efallai y byddai yna restr ganolog o adolygwyr cymwys addas o hyd, ellid galw arnynt i adolygu dyfarniad cymhwyso fesul cais. Er y byddai hynny yn lleihau gwir gost pob adolygiad, byddai yna angen o hyd i sefydliad ystyried ceisiadau, cynnal y rhestr ganolog a gwneud gwaith gweinyddol arall.
 - Sefydlu system fyddai'n golygu bod darparwr gwasanaethau maethu annibynnol arall neu wasanaeth maethu awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o ddyfarniad cymhwyso pan wneir cais am hynny. Gallai penderfynwyr darparwyr eraill gynnal yr adolygiad hwnnw. Byddai hynny yn arwain at lai o gostau yn gyffredinol, ond byddai yna fwy o bwysau o bosibl ar benderfynwyr. Hefyd efallai byddai'n gweithio'n well i awdurdodau lleol nag i ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol, sydd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am rieni maeth arfaethedig, ac efallai na fyddai'n dymuno rhannu data.
 - Diddymu'r hawl i gael adolygiad annibynnol yn gyfan gwbl fel y byddai'n rhaid i rieni maeth neu rieni maeth arfaethedig fyddai'n dymuno herio dyfarniad cymhwyso ddibynnu ar bolisi cwyno a chynrychiolaethau y darparwr gwasanaethau maethu annibynnol neu'r awdurdod lleol. Mae'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau maethu awdurdodau leol a darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol sefydlu polisi a gweithdrefn gwyno. Mae'n

bosibl y gellid atgyfnerthu'r gofynion hyn er mwyn cynnwys gofyniad i gael elfen annibynnol mewn achosion pan wneir cwyn am ddyfarniad cymhwyso. Mae awdurdodau lleol eisoes wedi sefydlu gweithdrefn gwyno sy'n cynnwys elfen annibynnol os na ellir datrys y gŵyn yn gynnar yn y broses.

5. Effeithiau posibl

Costau a Buddion Dangosol

- 5.1. Er mwyn cynorthwyo'r broses o ystyried y Rheoliadau drafft rydym wedi cynnwys rhai o gostau a buddion dangosol y cynigion a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn. Pan ydym wedi gallu gwneud hynny, rydym hefyd wedi cynnwys rhai manylion am opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft.

Darparwyr gwasanaethau maethu ac unigolion cyfrifol

- 5.2. Mae'r adran hon yn ymdrin â'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau maethu o dan Ddeddf 2016 (darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol) a Deddf 2014 (darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol).

Opsiynau

- **Opsiwn un**

- 5.3. Efelychu darpariaethau perthnasol Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017¹⁸ ('Rheoliadau 2017') ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol, a chymhwyso'r ddarpariaeth cymaint â phosibl i ddarparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol
- 5.4. Mae gwasanaethau rheoleiddiedig yn cael eu rhestru yn adran 2 Deddf 2016. Mae'r rhain yn cynnwys cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu annibynnol, gwasanaethau lleoli oedolion, gwasanaethau eirioli a gwasanaethau cymorth cartref.
- 5.5. O dan yr opsiwn yma byddai darpariaethau perthnasol Rheoliadau 2017 yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn yr un modd ag y maent i wasanaethau eraill a reoleiddir heb fod angen eu haddasu.
- 5.6. Gellid gosod gofynion cyffelyb ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r pwerau o dan adran 94A Deddf 2014 (a gynhwyswyd gan adran 58 Deddf 2016), sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau mewn perthynas â rheoleiddio swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Fodd bynnag, ni ellid efelychu'r darpariaethau yma yn Rheoliadau 2017 yn gyfan gwbl, oherwydd ni fyddai gofynion Deddf 2016 mewn perthynas ag unigolion cyfrifol yn gymwys i awdurdodau lleol.

- **Opsiwn dau**

Addasu darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017.

- 5.7. Mae gwasanaethau maethu, p'un a ydynt yn cael eu darparu gan ddarparwyr annibynnol neu awdurdodau lleol, yn amlwg o natur wahanol i wasanaethau sy'n darparu llety neu gymorth cartref, felly bu'n rhaid ystyried pa ddarpariaethau yn Rheoliadau 2017 ddylai fod yn gymwys ac na ddylai fod yn gymwys yng nghyd-destun maethu, a pha addasiadau allai fod yn briodol.

¹⁸ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf

- 5.8 Gyda chymorth Grŵp Technegol Gwasanaethau Maethu, cynhaliwyd ymarferiad er mwyn clustnodi addasiadau a newidiadau priodol. Roedd hynny yn cynnwys cymhwyso gofynion penodol i wasanaethau maethu awdurdodau lleol yn ogystal â darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol fydd yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2016.
- 5.9. Mae darpariaethau Rheoliadau 2017 sydd wedi'u haddasu neu eu datgymhwyso yn cael eu rhestru isod ynghyd â rhai sylwadau. Mae nifer o'r addasiadau wedi'u gwneud er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad yw darparwyr gwasanaethau maethu yn darparu gofal a chymorth yn uniongyrchol i blentyn, yn wahanol i'r gwasanaethau hynny sy'n rhan o gylch gwaith Rheoliadau 2017. Hefyd, gwnaethpwyd ambell i ychwanegiad sy'n adlewyrchu rôl rhieni maeth a'r gwahaniaethau rhwng darpariaeth annibynnol a darpariaeth awdurdodau lleol.
- 5.10. Y prif newidiadau yw:

Addaswyd

Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth maethu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau

Gwnaethpwyd rhai mân newidiadau i restr y polisïau a gweithdrefnau y mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth maethu ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y rhain yn fwy perthnasol i natur y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

Staffio – gofynion trosfwaol

Mae'r rheoliad hwn wedi cael ei addasu er mwyn adlewyrchu natur benodol gwasanaethau maethu. Mae'r darpariaethau mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal wedi cael eu dileu.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth mewn perthynas â safleoedd, cyfleusterau ac offer

Mae'r rhan hon wedi ei haddasu er mwyn adlewyrchu natur wahanol iawn gwasanaethau maethu o'u cymharu â gwasanaethau llety megis gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth llety diogel.

Datgymhwyswyd

Eithriadau

Ni fu'n rhaid gwneud unrhyw eithriadau i'r rheoliadau drafft yma.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth

Yn hytrach na'r darpariaethau mewn perthynas â chynlluniau personol ac asesu darparwyr, mae yna ofyniad cyffredinol i gydymffurfio â'r cytundeb gofal maeth. Mae hynny yn adlewyrchu natur y berthynas rhwng y darparwr a'r rhiant gofal maeth mewn perthynas â darparu gofal a chymorth i blentyn.

Cytundeb gwasanaeth

Nid yw'r gofyniad i'r unigolyn dderbyn copi o'r cytundeb gwasanaeth wedi cael ei efelychu, oherwydd bod hynny yn anaddas mewn cyd-destun maethu.

Ychwanegiadau

Cymorth i rieni maeth

Mae'r Rhan hon wedi ei hychwanegu er mwyn cydnabod y rhwymedigaethau ddylai darparwyr gwasanaethau maethu eu cael tuag at rieni maeth, mewn perthynas â chymorth, hyfforddiant, gwybodaeth a goruchwyliaeth.

Dyletswyddau rheolwyr gwasanaeth maethu awdurdodau lleol

Mae'r Rhan hon yn efelychu darpariaethau ar gyfer rheolwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol sy'n gymwys i unigolion cyfrifol o dan Reoliadau 2003, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, ac sy'n adlewyrchu'r ffaith bod rôl rheolwr awdurdod lleol yn wahanol iawn i rôl unigolion cyfrifol dynodedig o dan Ddeddf 2016. Nid yw darpariaethau sy'n gysylltiedig ag unigolion cyfrifol yn gymwys i wasanaethau maethu awdurdodau lleol.

Costau

- **Opsiwn un**

- 5.11. Lluniwyd Memorandwm Esboniadol manwl¹⁹ ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2017. Mae dadansoddiad o'r costau dangosol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny o dan Reoliadau 2003 i'w cael yn y ddogfen hon. Gall costau dangosol cyffelyb fod yn gymwys i'r opsiwn hon.

- **Opsiwn dau**

- 5.12. Byddai nifer o'r costau sy'n gymwys i Opsiwn un yn gymwys hefyd i Opsiwn dau. Er bod addasiadau wedi cael eu gwneud, mae'r darpariaethau yn y Rheoliadau drafft yma i raddau helaeth yn adlewyrchu rhai a geir yn Rheoliadau 2017.
- 5.13. Efallai bod yna rai costau pontio yn gysylltiedig â'r Rheoliadau drafft yma o ran diweddarau polisïau a gweithdrefnau (er bod y rhain yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd), cynefino a hyfforddi staff.

Manteision a risgiau

- **Opsiwn un**

- 5.14. Buddion cyfyngedig oedd i opsiwn un, am ddau brif reswm. I ddechrau, mae yna wahaniaethau rhwng darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol, a reoleiddir o dan Ddeddf 2016, a gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2016. Yn ail, nid yw darparwyr gwasanaethau maethu yn uniongyrchol yn darparu gofal a chymorth i blant, sydd yn hytrach yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan rieni maeth. Fodd bynnag, mae yna fanteision i sicrhau

¹⁹ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11277-em/sub-ld11277-em-e.pdf>

cymaint o gysondeb â phosibl ar draws y gwasanaethau rheoleiddiedig o dan Deddf 2016, a rhwng darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ac awdurdodau lleol.

5.15. Y prif risg sy'n gysylltiedig ag opsiwn un oedd y byddai'n ceisio ystumio gwasanaethau i ffitio model o wasanaeth a reoleiddir nad oedd yn adlewyrchu gwir natur maethu - yn benodol rôl rhieni maeth o ran darparu gofal a chymorth i blant.

- **Opsiwn dau**

5.16. Prif fuddion opsiwn dau yw sicrhau'r cysondeb gorau posibl ar draws y gwasanaethau a reoleiddir a rhwng darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, tra'n caniatáu hyblygrwydd i osod gofynion sy'n gweddu i natur unigryw rôl maethu ac sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng darpariaeth annibynnol a darpariaeth awdurdodau lleol.

5.17. Y risg oedd yn gysylltiedig ag opsiwn dau oedd y byddai gwyro gormod oddi wrth ofynion Rheoliadau 2017 yn ei gwneud yn anodd i Arolygiaeth Gofal Cymru sicrhau cysondeb ansawdd archwilio ar draws yr holl wasanaethau a reoleiddir. Fodd bynnag, o ystyried natur unigryw darpariaeth maethu, rydym yn credu bod y buddion sy'n deillio o wneud yr addasiadau a wnaethpwyd yn gorbwyso'r risgiau sy'n gysylltiedig ag anghysondeb ar draws gwasanaethau eraill a reoleiddir gan Ddeddf 2016.

5.18 Felly, opsiwn dau oedd yr opsiwn a ffefrid.

6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

Eich enw:	
Sefydliad (os yn gymwys):	
E-bost / rhif ffôn:	
Eich cyfeiriad:	

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych bod eich ymateb yn aros yn ddiennw, ticiwch y bocs os gwelwch yn dda:

RHANNAU 2 - 4:

GOFYNION AR GYFER DARPARWYR GWASANAETHAU MAETHU ANNIBYNNOL

- Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol
- Darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol sydd wedi marw neu sydd wedi eu diddymu
- Dynodiad unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru

A yw'r gofynion yn y rhannau hyn o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol*? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi *darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol* yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhannau yma? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 5: GOFYNION CYFFREDINOL AR GYFER DARPARWYR GWASANAETHAU MAETHU AWDURDODAU LLEOL

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol*? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r cod ymarfer drafft yn cefnogi *darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol* yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

**RHAN 6: GOFYNION CYFFREDINOL AR GYFER DARPARWYR
GWASANAETHAU MAETHU ANNIBYNNOL A DARPARWYR
GWASANAETHAU MAETHU AWDURDODAU LLEOL**

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r cod ymarfer drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 7: POLISIÄU, GWEITHDREFNAU A SAFONAU ERAILL

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol*? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi *darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol* yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol*? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r cod ymarfer drafft yn cefnogi *darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol* yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 8: IECHYD AC ADDYSG

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol*? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi *darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol* yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol*? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r cod ymarfer drafft yn cefnogi *darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol* yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 9: SAFLEOEDD, CYFLEUSTERAU AC OFFER

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r cod ymarfer drafft yn cefnogi *darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol* yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

--

RHAN 10: CYMORTH I RIENI MAETH

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer *darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a rhieni maeth*? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

--

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi *darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol* yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

--

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol a rhieni maeth? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r cod ymarfer drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 11: STAFFIO

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r cod ymarfer drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 12: DYLETSWYDDAU UNIGOLION CYFRIFOL

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

**RHAN 13: DYLETSWYDDAU RHEOLWYR GWASANAETHAU MAETHU
AWDURDODAU LLEOL**

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

--

A yw'r cod ymarfer drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

--

RHAN 14: SEFYDLU PANELAU MAETHU

A yw'r darpariaethau yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

--

A ydych yn cytuno â'r gofyniad newydd i sefydlu rhestr ganolog (rheoliad drafft 87)? Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y gofyniad hwn, defnyddiwch y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

--	--	--	--

A ydych yn cytuno â'r trefniadau ar gyfer proses asesu dau gam ar gyfer rhieni maeth arfaethedig (rheoliad drafft 91)? Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y trefniadau hyn, defnyddiwch y bocs isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

--	--	--	--

A ydych yn credu bod angen canllawiau ymarfer da er mwyn cefnogi darparwyr gwasanaethau maethu i weithredu darpariaethau y rhan hon o'r Rheoliadau drafft? Os ydych, eglurwch yn y bocs isod beth ddylai'r canllawiau hyn eu cwmpasu.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

--	--	--	--

TROSEDDAU

A yw'r ymagwedd a ddefnyddir mewn perthynas â throseddau yn y Rheoliadau drafft (rheoliad 14 mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a rheoliad 78 mewn perthynas ag unigolion cyfrifol) yn ddigonol a chymesur? Os nad, eglurwch hynny isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

HYSBYSIADAU COSB

A yw'r ymagwedd mewn perthynas â hysbysiadau cosb, fel y dangosir hynny yn Atodiad A, yn ddigonol a chymesur? A yw'r lefelau cosb yn briodol? Os nad, eglurwch hynny isod.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---------------------------------------------	------------------------------------------------	---------------------------------------

LLEOLI GAN SEFYDLIADAU GWIRFODDOL

A yw ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae Rhan VI Rheoliadau 2003 efallai wedi cael eu defnyddio'n ymarferol yn gywir, ac a yw ein casgliad bod y darpariaethau hyn yn afraid ac y gellir eu diddymu yn gywir? Rhwch sylwadau yn y blwch isod.

MECANWAITH ADOLYGU ANNIBYNNOL

Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar ddyfodol adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau (IRD) a'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM). Wrth roi eich safbwyntiau, ystyriwch y cwestiynau canlynol:

- A oes yna angen parhaus am adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau mewn perthynas â maethu?
- A fyddai yna unrhyw anfanteision i ddileu'r gofyniad i gynnal adolygiad annibynnol o ddyfarniadau ar gyfer maethu?
- A ddylem gadw'r trefniadau presennol ar gyfer adolygiadau annibynnol a gefnogir gan IRM? Rhowch resymau am eich atebion.
- A oes yna drefniadau newydd neu amgen ellid eu sefydlu ar gyfer adolygu dyfarniadau cymhwys ar gyfer maethu? Os oes, beth allai'r trefniadau hynny fod?
- Os ydych eisiau cynnig trefniadau newydd neu amgen, byddwch mor fanwl â phosibl ynghylch sut y gallai'r trefniadau hynny weithio'n ymarferol, ac egluro sut y byddai unrhyw gynigion yn dangos tryloywder, annibyniaeth ac yn hyrwyddo maethu.

Rhowch sylwadau os gwelwch yn dda:

Cwestiynau eraill:

Rydym wedi nodi nifer o gostau/buddion/risgiau mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft yma.

A yw'r costau/buddion/risgiau y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori hon yn adlewyrchiad rhesymol o lefel effaith y Rheoliadau drafft? A oes yna unrhyw gostau/buddion/ risgiau ychwanegol yr ydych yn teimlo na ystyriwyd neu na nodwyd?

Eglurwch os gwelwch yn dda.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig neu beidio. Nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

A ydych yn credu bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os ydych, pa rai a pham/pam ddim?

Eglurwch os gwelwch yn dda.

Hoffwn wybod beth yw eich safbwyntiau ar effeithiau'r cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, yn benodol mewn perthynas â

- i) chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
- ii) pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n meddwl allai fodoli? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Eglurwch os gwelwch yn dda.

Hefyd eglurwch sut ydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

- i) creu effeithiau cadarnhaol neu gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
- ii) sicrhau na effeithir yn niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Eglurwch os gwelwch yn dda.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion eraill i'w nodi nad ydym wedi delio â hwy yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i wneud hynny.